


# CYNGOR TREF PORTHMADOG



## COFNODION PWYLLGOR CYLLID AC AMCANION CYFFREDINOL 7 yh nos Fawrth Ebrill 26ain 2021

**Presennol** : Cynghorwyr : Selwyn Griffiths, Llywelyn Rhys (Cadeirydd), Gwilym Jones, Aled Griffith, Marian Roberts (Clerc)

**Absennol** : Cyng Jason Humphreys, Cyng Dr Melfyn Edwards

1. **Ymddiheuriadau** :- Cyng Nia Jeffreys, Cyng Ian Jones

2. **Archwilio'r cyfrifon.** (Mantolen a dadansoddiad o'r cyfrifon hyd at 31.3.22 sydd yn barod ar gyfer yr archwilydd mewnol ynghlwm)

**Penderfynwyd** :- derbyn y wybodaeth yn ôl cynnig Cyng Gwilym Jones, Cyng Selwyn Griffiths yn eilio.

3. **Cyflog y Clerc.** (Mater statudol sydd yn gorfod cael ei drafod yn flynyddol) Gadawodd y Clerc y cyfarfod a chafwyd cyfarfod cauedig yn ei habsenoldeb. Dychwelodd y Clerc i'r cyfarfod i gofnodi fod yr Is-Bwyllgor Cyllid wedi codi oriau'r Clerc i 16 awr yr wythnos. Caiff y mater ei roi gerbron y Pwyllgor Llawn ar 10.5.22.

4. **Biliau i'w talu - gwariant disgwylidig:**

Awdurdodwyd y taliadau canlynol yn ôl cynnig Cyng Aled Griffith, Cyng Selwyn Griffith yn eilio.

1	BREESE GWYNDAF	Cofrestru Cae Chwarae Bodawen	£	457.00
2	GERAINT LEWIS	Mapio Cae Chwarae Bodawen er mwyn ei gofrestru	£	391.00
3	XEROX FINANCE	Bil Cytundeb newydd a rhent llungopiwr	£	313.80

### 5. Mater brys

Roedd y Clerc yn adrodd iddi dderbyn galwad ffôn gan Tomos Hughes o'r Gwasanaeth Ambiwlans ynglyn â chynnig gwell am ddiffibriliwr y diwrnod wedi gyrru sic i Calon Hearts i archebu 2 ddiffibriliwr. Roedd hefyd wedi ei hysbysu o gynllun Llywodraeth Cymru yn cynnig grantiau am ddiffibriliwr am ddim. Yn dilyn cyfarfod 2 awr gydag o fore heddiw ( 26.4.22) mae'r Clerc wedi gwirio batris a padiau'r ddau ddiffibriliwr a brynwyd yn Ionawr 2021 ac wedi eu cofrestru gyda BHF The Circuit sydd yn cofnodi lleoliad a statws pob diffibriliwr. Mae wedi diweddarau rhestr a gwneuthuriad pob diffibriliwr yn ardal Porthmadog a'u statws ar restr BHF The Circuit.

Ymhlith manteision prynu diffibriliwr gan y Gwasanaeth Ambiwlans :-

- Byddai 2 ddiffibriliwr Zoll ganddynt yn costio £500 yn llai na rhai Calon Hearts
- Mae batris diffibriliwr Zoll yn costio £20 ac ar gael yn hawdd mewn siopau tra mae rhai ddiffibriliwr Calon Hearts yn costio £200 yr un – bob 4 mlynedd

- Mae yna “shelf –life” i’r padiau a rhaid eu newid pan ddônt i ben neu ar ôl cael eu defnyddio.
- Byddai’r Gwasanaeth Amiwylans, trwy Tomos Hughes, yn darparu padiau newydd i’r diffibriliwr
- Bydd yn rhaid i’r Clerc, fel “named guardian” wirio statws batris a padiau pob diffibriliwr sy’n eiddo i’r Cyngor Tref pob 3 mis a rhaid penodi ail berson i weithredu yn ei lle yn ei habsenoldeb.
- Byddai Tomos Hughes yn trefnu dosbarthiadau CPR am ddim i gydfynd â lleoliadau’r 2 ddiffibriliwr.

**Penderfynwyd :-** y Clerc i weithredu rhagblaen fel a ganlyn:-

- Canslo’r archeb efo Calon Hearts
- Canslo’r siec yn y banc
- Llenwi’r ffurflenni cais am grant am 2 ddiffibriliwr
- Os na fydd y ceisiadau’n llwyddiannus yna archebu 2 ddiffibriliwr drwy Tomos Hughes yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Aled Griffith yn eilio.

Daeth y cyfarfod i ben am 20.45.

Marian Roberts  
27.4.22